

## IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU

DYDD GWENER, 25 MAI 2018

Yn Cynghorydd (Cadeirydd)

bressenol:

Cynghorwyr Goddard, Jacobsen a/ac Caerhirfryn

### 13 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

### 14 : CAIS AM AMRYWIAD AR DRWYDDED - NEW YORK CITY PIZZA, HEOL Y CRWYS

Yn Bresennol:

Ymgeiswyr: cynrychiolwyd gan Cameron Paterson  
Mr Juan Tish  
Mark McDonald

Parti â Diddordeb: Y Cynghorydd Norma Mackie

### Y Cais

Daeth cais am Drwydded Adeilad i law gan Mr Juan Hassan Tish mewn perthynas â New York Pizza, 104 Heol y Crwys, Cathays, Caerdydd.

Ymgeisiodd yr ymgeisydd am y canlynol:

(1) Parthed y gweithgareddau trwyddedadwy canlynol:

Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do)

(2) Heblaw y dangosir fel arall, caiff yr adeilad fod ar agor i'r cyhoedd yn ystod yr oriau canlynol ac yn ystod unrhyw oriau o ganlyniad i'r amseriadau ansafonol:

Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 13:00 tan 05:00

Dydd Sul: 13:00 tan 04:00

(3) I ddarparu gweithgareddau trwyddedadwy yn ystod yr oriau canlynol:

Darparu lluniaeth yn hwyr y nos (dan do):

Dydd Llun i ddydd Sadwrn: 23:00 tan 05:00

Dydd Sul: 23:00 tan 04:00

Ar ddechrau'r gwrandawriad, dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr ymgeisydd wedi derbyn yr amodau a awgrymwyd gan Heddlu De Cymru yn eu sylwadau ysgrifenedig. Felly diwygiwyd y cais i gynnwys yr amodau canlynol:

1. Caiff system teledu cylch cyfyng ei gosod i safon a gytunwyd gan Heddlu De Cymru. Caiff y system ei chynnal a'i chadw a'i gweithredu bob amser y bydd yr adeilad ar agor i'r cyhoedd. Bydd y system yn recordio pob rhan o'r ardaloedd trwyddedadwy y mae gan y cyhoedd fynediad iddynt (heblaw am y toiledau) ac unrhyw ardaloedd allanol, allanfeydd a mynedfeydd a ddefnyddir gan y cwsmeriaid. Cedwir delweddau am 31 diwrnod o leiaf.

Mae'n rhaid rhoi'r delweddau i gyflogai'r Heddlu ar unwaith ar gais pan fydd yr adeilad ar agor ac ar bob adeg arall cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol. Bydd hyfforddiant staff digonol i hwyluso'r uchod.

2. Bydd uchafswm y cwsmeriaid sy'n bwyta bwyd poeth y tu fewn i'r adeilad heb fod yn fwy na naw ar unrhyw adeg.

### Sylwadau gan y Parti â Diddordeb

Anerchodd Y Cynghorydd Norma Mackie yr Is-bwyllgor ar ran ei chydweithwyr yn y ward a phreswylwyr lleol. Gwrthwynebodd y Cynghorydd Mackie y cais, yn seiliedig ar y pedwar amcan trwyddedu. Ystyriodd y Cynghorydd fod amser agor o 0500 yn debygol o gynyddu trosedd ac anhrefn yn yr ardal. Mae'r adeilad wedi'i leoli ar brif ffordd ac ar lwybra a ddefnyddir gan bobl sy'n gadael Canol y Ddinas. Caiff tua 30 o droseddau eu hadrodd yn yr ardal bob mis ac felly roedd yn anodd gweld sut na fyddai caniatáu'r cais yn cael effaith niweidiol ar lefel y troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. At hynny, roedd 0500 awr yn debygol o ddenu nifer uwch o bobl feddw i mewn i'r ardal.

Codwyd pryderon ei fod yn debygol y byddai cynnydd o ran niwsans i'r cyhoedd gan gwsmeriaid yn defnyddio'r adeilad a chan geir yn cyrraedd ac yn gadael yr adeilad. Gwrthodwyd cais i ymestyn oriau agor yn yr adeilad hwn o'r blaen oherwydd pryderon ynglŷn â'r effaith y câi'r gweithrediad ar sŵn a sbwriel.

Gofynnodd a oes unrhyw fusnesau tebyg yn yr ardal sy'n masnachu tan 0500. Dywedodd y swyddogion fod dau fusnes yn masnachu tan 0500 ac mae nifer o rai eraill yn masnachau tan amseroedd amrywiol y tu hwnt i 2300. Dywedodd y Cynghorydd Mackie fod un o'r adeiladau y cyfeiriwyd atynt yn destun cwynion rheolaidd ynglŷn ag aflonyddwch sŵn, sbwriel a lorïau dosbarthu.

Gofynnodd Mr Patterson, cynrychiolydd yr ymgeisydd, i'r Cynghorydd Mackie gadarnhau fod yr adeiladau eraill y cyfeiriwyd atynt ond yn cynnig gwasanaeth tecawê ac nad oedd darpariaeth ar gyfer ciniawa yn yr adeilad. Cadarnhaodd y Cynghorydd Mackie fod hyn yn wir.

### Sylwadau'r Ymgeisydd

Cyflwynodd Mr Cameron Patterson y cais. Dywedwyd wrth yr aelodau bod y cais yn cynnwys Lluniaeth yn Hwyr y Nos, ond ar gam, nad oedd yn cynnwys gwasanaeth tecawê. Dywedodd y Swyddogion fod yr Is-bwyllgor wedi trafod y mater hen a bod yr Aelodau wedi cytuno i barhau â'r cais.

Dywedodd Mr Patterson fod Caerdydd yn ddinas ffyniannus 24 awr ac mae Heol y Crwys yn ffordd brifwythiennol bwysig. Mae Datganiad Polisi Trwyddedu y Cyngor ei hun yn ceisio ymestyn mathau ac amrywiaeth y gwasanaethau a ddarparwyd.

Roedd yr adeilad yn gyfeillgar i deuluoedd ac roeddent yn ceisio darparu profiad gweledol i gwsmeriaid.

Dywedwyd wrth yr aelodau na châi unrhyw alcohol ei ddarparu yn yr aelodau ac mae'r ymgeisydd yn barod i fod yn hyblyg o ran yr oriau agor. Dangosodd yr amserlen gweithredu a gyflwynwyd gyda'r cais fod yr amcanion trwyddedu yn cael eu hystyried. Crynhodd Mr Patterson sut yr aethpwyd i'r afael â phob amcan trwyddedu gan yr ymgeiswyr.

Dywedodd Mr Patterson na ddylai'r ymgeiswyr gael eu dal yn ymatebol am broblemau a achoswyd mewn adeiladau eraill, megis niwsans gyda sbwriel neu am broblemau a achoswyd yn yr adeilad cyn cysylltiad yr ymgeisydd â'r adeilad. Cydnabuwyd pryderon preswylwyr lleol ond bu'r ymgeiswyr yn gyfrifol am yr adeilad ers 1 Chwefror 2018 ac felly mae'n glir nad yw sylwadau sy'n cyfeirio at ddigwyddiadau cyn hyn yn gysylltiedig â'r ymgeisydd. Gwahoddwyd yr aelodau i ganiatáu'r cais.

Gofynnodd y Cynghorydd Mackie a roddwyd unrhyw ystyriaeth i'r preswylwyr sy'n byw yn yr eiddo y drws nesaf ac yn benodol i bryderon parthed mynediad at gefn yr adeilad a champau i liniaru niwsans sŵn. Dywedodd Mr Patterson fod y llawr cyntaf uwchben yr adeilad yn wag a chaiff ei ddefnyddio fel storfa. Mae'r preswyllydd agosaf yn byw ar ochr arall tecawê Uncle Sams Fried Chicken ac nid yw y drws nesaf i'r busnes.

**PENDERFYNWYD:** Bod yr Is-bwyllgor, wedi ystyried yr holl wybodaeth; ac yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003, Arweiniad Adran 182 a Datganiad Polisi Trwyddedu yr Awdurdod Trwyddedu ei hun, bod yr Is-bwyllgor yn caniatáu'r cais.